# Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

**2020 dccc 3**

**1 Diddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin**

(1) Mae amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin wedi ei ddiddymu mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru.

(2) Yn unol â hynny, ni chaniateir cyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr â chosb resymol.

(3) Ni chaniateir ychwaith gyfiawnhau rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru mewn unrhyw achos sifil neu droseddol ar y sail ei bod yn gyfystyr ag ymddygiad derbyniol at ddibenion unrhyw reol arall yn y gyfraith gyffredin.

(4) At ddibenion yr adran hon, ystyr "cosb gorfforol" yw unrhyw guro (yn yr ystyr sydd i "battery" yn y gyfraith gyffredin) a wneir fel cosb.

(5) Yn adran 58 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) (cosb resymol)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "battery of a child" mewnosoder "taking place in England",

(b) yn is-adran (3), ar ôl "Battery of a child" mewnosoder "taking place in England", ac

(c) mae'r pennawd yn newid i "Reasonable punishment: England".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 21.3.2022, gweler **a. 5(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, Adran 1.